PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 1**

**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

**Adnodd 2**

# *Systemau Etholiadol yn y DU*

# Canllaw i Athrawon

International Politics Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

## CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn ar systemau etholiadol yn y DU yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 1: Syniadau Hanfodol i Ddeall Systemau Gwleidyddol***. Mae pob adnodd wedi'i deilwra i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Nid yw'r adnodd yn cwmpasu'r holl faterion yn y fanyleb ac amlinellir isod wybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar y fanyleb sy'n cael sylw yn yr adnodd hwn.

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| **Adnodd 2: Systemau Etholiadol yn y DU** | **2.2.2 Systemau etholiadol yn y DU**<br>**– Y Cyntaf-yn-y-Ras; Aelod Ychwanegol; systemau etholiadol Rhestrau Pleidiau a Phleidlais Sengl Drosglwyddadwy: eu manteision a'u hanfanteision gan gynnwys dadleuon ynghylch clymbleidiau a llywodraethau lleiafrifol ac ynghylch tegwch a chyfrannedd.** |

Bwriad y canllaw i athrawon yw cynnig gorolwg o'r pwnc mewn modd sy'n dilyn yn agosach yr elfennau a amlinellir yn y fanyleb.

### Systemau Etholiadol yn y DU

Mae'r adnodd hwn yn gwerthuso systemau etholiadol gwahanol yn y DU gan gynnwys trafod eu manteision a'u hanfanteision. Oherwydd natur y pwnc, mae llawer o'r deunydd yn annog myfyrwyr i ddehongli a dadansoddi data meintiol. Rhoddir pwyslais hefyd drwy'r deunydd ar Etholiad Cyffredinol 2015 fel modd o enghreifftio nodweddion y gwahanol systemau etholiadol.

Mae'r drafodaeth ar ddiwygio etholiadol yn un hir. Yn hanesyddol. roedd yr ystod o etholiadau ar wahanol haenau o lywodraeth yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio'r system Cyntaf yn y Ras (CYYR). Bellach, mae ystod ehangach o systemau etholiadol yn cael eu defnyddio.

Mae'r trafodaethau ar ddiwygio pellach yn parhau.[1] Yn y cyd-destun Cymreig, yn 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddiwygio'r system bleidleisio ar gyfer etholiadau lleol gyda'r system Cyntaf yn y Ras a'r System Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn cael eu cynnig fel y ddau opsiwn. Yn dilyn hyn, yn 2017-18, cynhaliodd y Cynulliad Cenedlaethol ymgynghoriad gyda'r bwriad o ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad i gyd-fynd gyda'r argymhelliad i gynyddu nifer yr Aelodau Cynulliad gan roi mwy o bwyslais ar gael system etholiadol mwy cyfrannol na'r System Aelodau Ychwanegol. Gall y deunyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymgynghoriadau hyn fod o ddefnydd i'r addysgu. Yn eu cyfanrwydd, mae'r trafodaethau hyn yn cadarnhau nad oes system etholiadol ddelfrydol a bod gan wahanol systemau etholiadol eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain.

1 Am wybodaeth bellach ynghylch Adroddiad Jenkins a'r dadleuon am ddiwygio etholiadol yn San Steffan, gweler y papur hwn a gynhyrchwyd gan Wasanaethau Seneddol San Steffan: researchbriefings.files.parliament.uk/documents/RP98-112/RP98-112.pdf

Defnyddir gwahanol feini prawf i werthuso natur systemau etholiadol. Dyma ddwy enghraifft:

| COMISIWN ANNIBYNNOL AR Y SYSTEM BLEIDLEISIO – ADRODDIAD JENKINS (1998) | COMISIWN ARBENIGOL AR DDIWYGIO ETHOLIADOL, CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU (2017) |
|---|---|
| Llywodraeth Sefydlog | Atebolrwydd ac effeithiolrwydd y llywodraeth:<br>system sy'n annog llywodraeth effeithiol |
| Cyfranoldeb: cyfrannol i ryw raddau (*broad proportionality*) | Cyfranoldeb:<br>ceisio sicrhau system sy'n fwy cyfrannol na trefniadau'r Cynulliad dan drefniadau SAY |
| Rhoi dewis i bleidleiswyr | Atebolrwydd Aelodau:<br>bod aelodau yn atebol i'r etholwyr ac yn eu cynrychioli yn effeithiol |
| Cynnal y cyswllt rhwng Aelod Seneddol ac etholaeth ddaearyddol | Statws cyfwerth:<br>ceisio sicrhau fod yr aelodau yn cael eu hethol gyda mandad gweddol gyfwerth gan arwain at statws cyfartal |
| | Amrywiaeth:<br>system sy'n annog bod yr etholwyr yn adlewyrchu'r boblogaeth |
| | Dewis:<br>bod etholwyr yn cael y cyfle i ddethol neu fynegi dewis ar gyfer ymgeiswyr unigol |
| | Mandad cyfwerth:<br>bod pob pleidlais â'r un gwerth |
| | Ffiniau:<br>system yn seliedig ar ardaloedd daearyddol wedi eu diffinio'n glir |
| | Symlrwydd:<br>system sy'n syml ac yn eglur i bleidleiswyr |

## System fwyafrifol

### Y System Cyntaf yn y Ras

Y system sy'n cael ei defnyddio ar gyfer Etholiadau Cyffredinol y Deyrnas Unedig yw Cyntaf yn y Ras (CYYR). O dan y system hon rhoddir un bleidlais i bob pleidleisiwr ac mae'r ymgeisydd sy'n sicrhau'r nifer uchaf o bleidleisiau yn ennill. Mae'r pwyslais felly ar sicrhau'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn hytrach na mwyafrif absoliwt (dros 50% o'r bleidlais). Yn y Deyrnas Unedig, mae'r system hon fel arfer yn gweithredu ar sail etholaethau un aelod, lle bo un unigolyn yn cael eu hethol i gynrychioli un ardal ddaearyddol (e.e. etholaeth neu ward).

***Dadleuon o blaid ac yn erbyn CYYR***

| O BLAID | YN ERBYN |
|---|---|
| System syml a dealladwy i bleidleiswyr, a syml hefyd i'w gweithredu sy'n cynyddu hyder yr etholwyr yn y canlyniad | Ystumio'r canlyniad gwreiddiol mewn modd annerbyniol sy'n creu anhegwch cyfrannol. |
| Defnyddio system CYYR gydag etholaethau aelod unigol yn cael ei ystyried fel darparu atebolrwydd cryf drwy sicrhau cysylltiad agos rhwng aelod etholedig a'r etholaeth. Hwyluso mynediad i'r system wleidyddol. | Cyfyngu ar y dewis i'r etholwyr gan arwain at nifer uchel o bleidleisiau wedi'u gwastraffu |
| Fel arfer yn arwain at lywodraethau cryf, mwyafrifol ac yn gwneud llywodraethau clymblaid yn llai tebygol. | Gor-gynrychioli pleidiau mawr |
| | Anfanteisiol i bleidiau bychain sydd â llawer o gefnogaeth ar draws ystod o etholaethau |
| | Creu nifer uchel o seddi saff sy'n anhebygol o newid dwylo gydag etholaethau anghystadleuol ac effaith negyddol ar faint y bleidlais. |

## System Hybrid

**System Aelodau Ychwanegol** (*Additional Members System*)
**neu System Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg** (*Mixed Member Proportional System*)
System sy'n gyfuniad o CYYR ac elfennau cyfrannol yw'r System Aelod Ychwanegol (SAY) sy'n cael ei defnyddio ar gyfer Etholiadau i Gynulliad Cymru a Senedd yr Alban. Yn yr achosion hyn, mae'n gymysgedd o CYYR a rhestrau pleidiol rhanbarthol (i Gymru, 5 rhanbarth o 4 Aelod Cynulliad). Mae gan bleidleiswyr ddwy bleidlais o dan y system hon; un i ddewis ymgeisydd etholaethol ac un pleidlais ranbarthol ar gyfer plaid (lle bo enwau'r ymgeiswyr wedi eu blaenoriaethu gan y pleidiau). Gellir dewis i fwrw'r ddwy bleidlais ar gyfer yr un blaid neu ar gyfer pleidiau gwahanol. Defnyddir fformiwla etholiadol (d'Hondt) i sicrhau bod y canlyniad yn fwy cyfrannol wrth bennu'r nifer o seddi rhanbarthol. Gan fod y gymhareb rhwng Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol yn amrywio ymysg rhannau datganoledig gwahanol y DU, mae gwahaniaeth o ran pa mor gyfrannol yw'r system.

### Cryfderau

: Arwain at drefniadau mwy cyfrannol

: Parhau'r cyswllt rhwng aelod etholedig ac etholaeth

: Cynyddu'r dewis i etholwyr

: Caniatau canlyniad mwy cyfrannol.

Mae profiad Cymru a'r Alban wedi dangos fod system rhestrau rhanbarthol yn annog y pleidiau i geisio sicrhau cynrychiolaeth mwy amrywiol. Er enghraifft, yng Nghymru, cyfrannodd at sefyllfa o gynrychiolaeth gyfartal rhwng y rhywiau yn 2003, gan fod ymysg un o'r cyrff seneddol cyntaf yn y byd i sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Yn dilyn etholiad 2016, 42% o'r cynrychiolwyr yn y Cynulliad sy'n fenywod. Rhaid pwysleisio taw darparu'r llwyfan mae'r system etholiadol a bod llawer yn dibynnu ar y pleidiau eu hunain yn defnyddio'r system i gymryd camau o'r fath. Mwy cymysg fu'r llwyddiant o ran cynrychiolaeth i grwpiau eraill megis lleiafrifoedd ethnig neu bobl ag anabledd.

Mae'r lefel uwch o gyfranoldeb yn yr Alban wedi cyfrannu at ethol cynrychiolwyr o bleidiau llai fel y Gwyrddion Albanaidd a'r Sosialwyr Albanaidd i Senedd yr Alban. Yn Etholiad Senedd yr Alban 2016, enillodd y Gwyrddion 6 sedd ranbarthol.

**Gwendidau**

: Diffyg statws cyfwerth i aelodau etholedig, gyda'r bygythiad o arwain at ddau ddosbarth o aelodau, ystyried bod statws uwch a mwy o bwysigrwydd i Aelodau Cynulliad etholaethol o'i gymharu â'r Aelodau Rhanbarthol

: Rhannol gyfrannol

## System gyfrannol

**Pleidlais sengl drosglwyddadwy** (*Single Transferrable Vote*)
Defnyddir y system hon mewn etholiadau i Gynulliad Gogledd Iwerddon ac mewn etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban. Amcan y system yw sicrhau canlyniad cyfrannol, gwella'r dewis i etholwyr a lleihau'r nifer o bleidleisiau a wastreffir. Defnyddir etholaethau aml-aelod mawr ar gyfer y system hon a chaiff pleidleiswyr y cyfle i restru'r ymgeiswyr a mynegi eu dewis o ymgeiswyr unigol, gan felly estyn y cyfle i ddewis ar draws y pleidiau. Rhaid i ymgeiswyr gyrraedd cwota er mwyn cael eu hethol.

Mae'r system hon yn darparu cyfranoldeb, yn rhoi statws cyfwerth i aelodau, ac yn rhoi'r dewis i bleidleiswyr dros y dewis o bleidiau ac ymgeiswyr a lleihau'r dylanwad sydd gan y pleidiau dros ba ymgeiswyr sy'n cael eu hethol. Ymysg y problemau adnabyddir mae goblygiadau cael etholaethau o faint sylweddol, cymhlethdod y dull cyfrifo, a phryderon bod aelodau etholedig yn rhoi gormod o bwyslais ar eu rolau yn cynrychioli eu hetholaethau ar draul swyddogaethau craffu wrth gystadlu o fewn etholaethau.

**System Rhestr Gaeedig** (*Closed Regional List System*)
Defnyddiwyd y system hon ar gyfer etholiadau i Senedd Ewrop yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. O dan y system hon, caiff etholwr bleidleisio dros blaid ac nid dros ymgeiswyr unigol. Y pleidiau sy'n dewis yr ymgeiswyr ac ym mha drefn maent yn ymddangos ar y rhestr ar y papur pleidleisio, hynny yw pwy yw rhif 1,2,3,4. Mae cyfle felly i'r pleidiau hyrwyddo menywod a lleiafrifoedd ethnig gan eu gosod yn uwch ar y rhestrau. Er bod y system yn fwy cyfrannol, gall maint llai y rhanbarthau arwain at or neu dan gynrychioli rhai pleidiau.

**Y Bleidlais Amgen** (*Alternative Vote*)
Nid yw'r Bleidlais Amgen yn system gyfrannol. Cynhaliodd Llywodraeth Clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol refferendwm yn 2011 lle rhoddwyd y cyfle i bleidleiswyr newid o CYYR i system ethol y Bleidlais Amgen ar gyfer etholiadau i San Steffan.

Mae'n gadael i bleidleiswyr fynegi eu hoffter o ymgeiswyr yn nhrefn 1,2,3, yn hytrach na rhoi un X ar y papur etholiad. Golyga hyn fod mwy o ddewis i bleidleiswyr na system CYYR ac nid yw eu pleidlais yn cael ei gwastraffu. Lleiha hyn y galw am bleidleisio tactegol. Fodd bynnag, gall arwain at ganlyniad llai cyfrannol (e.e na chanlyniad Etholiad Cyffredinol 2015 o dan y system CYYR).

## Effaith systemau etholiadol ar natur llywodraethau

Fel y gwelwyd uchod, un o'r prif ddadleuon dros y system CYYR yw ei bod yn sicrhau llywodraeth fwyafrifol sy'n cael ei hystyried yn llywodraeth gadarn. Mae'r system CYYR yn gallu arwain at senedd grog ble bo gan un plaid fwyafrif ond ble nad oes gan un o'r pleidiau fwyafrif clir (*absolute majority*) (e.e. Etholiad Cyffredinol 2017). Chwe senedd grog sydd wedi bod yn San Steffan ers dechrau'r ugeinfed ganrif. Tra bod systemau etholiadol mwy cyfrannol yn debygol o arwain at lywodraethau lleiafrifol a llywodraethau clymbleidiol, mae hynny'n dipyn llai tebygol o dan CYYR. Ymysg yr eithriadau mae llywodraeth glymbleidiol rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol 2010-2015.

I'r gwrthwyneb, mae llywodraethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban ers 1999 wedi profi llywodraethau lleiafrifol a chlymbleidiol. Yn wir, yn yr Alban, llywodraeth yr SNP yn 2011 oedd y llywodraeth fwyafrifol gyntaf a brofwyd yno ar y lefel ddatganoledig. Yn 1999 a 2003, roedd senedd grog a phenderfynodd Llafur fynd i glymblaid gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol Albanaidd. O fewn y llywodraeth glymblaid, wrth i'r ddwy blaid gydweithio rhaid oedd dod i gytundeb ar raglen lywodraethu oedd yn cynnwys polisiau'n cydfynd gyda dyheadau gwleidyddol y ddwy blaid. Yn 2007, enillodd yr SNP y nifer fwyaf o'r pleidleisiau a seddi ond nid oedd mwyafrif clir. Penderfynodd reoli fel llywodraeth leiafrifol gan geisio ennill cefnogaeth gan y pleidiau eraill fesul mater penodol. Llwyddon nhw i sicrhau cefnogaeth i rai o'u prif bolisiau e.e. costau ar brescriptiwn, ond nid oedd digon o gefnogaeth ar gyfer syniadau megis Treth Incwm Lleol fyddai'n disodli Treth y Cyngor.

Ymysg cryfderau llywodraeth glymbleidiol mae'r potensial i greu llywodraeth sy'n adlewyrchu dyheadau ystod o bleidiau mewn llywodraeth, sicrhau gwleidyddiaeth gonsensws gyda lefel dda o gytundeb rhwng y prif bleidiau ar faterion allweddol. Gall hyn ofyn am gyfaddawdu ar bolisiau. Gall adlewyrchu yn well barn gyhoeddus yr etholwyr. I'r gwrthwyneb, mae'r dadleuon am wendidau llywodraeth glymbleidiol yn cynnwys ei fod yn creu llywodraeth wannach a llai cadarn. Gall arwain at bleidiau gyda syniadau ideolegol gwahanol iawn yn dod ynghyd gan greu anhawster o ran cytuno ar bolisiau, neu gall arwain at un blaid bwerus yn cael dylanwad sylweddol fwy na phlaid lai.

## ARGYMHELLION DARLLEN PELLACH

### Adnoddau yn Gymraeg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) Senedd sy'n Gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad
http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/About%20the%20Assembly%20section%20documents/Expert%20Panel%20on%20Assembly%20Electoral%20Reform/Senedd%20sy%27n%20Gweithio%20i%20Gymru.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) Creu Senedd i Gymru: Ymgynghoriad
https://www.seneddydyfodol.cymru

Lydia Jones & Gwilym Evans (2013) Llyfr UG Llywodraeth a Gwleidyddiaeth (Aberystwyth: @ebol) Pennod 3: Rôl etholiadau mewn democratiaeth

### Adnoddau yn Saesneg

Cymdeithas Diwygio Etholiadol – Systemau Pleidleisio:
https://www.electoral-reform.org.uk/voting-systems/

Adroddiad Jenkins a'r dadleuon am ddiwygio etholiadol yn San Steffan, gweler y papur hwn a gynhyrchwyd gan Wasanaethau Seneddol San Steffan:
researchbriefings.files.parliament.uk/documents/RP98-112/RP98-112.pdf